

## **Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru**

Yn y weminar:

Anthony Barrett o Swyddfa Archwilio Cymru ydw i, ac yn gwmni i mi'r bore yma mae Tim Crowley, Cyfarwyddwr Mersey Internal Audit Agency, a Keeley Lund, sy'n Rheolwr Technegol gyda CIPFA.

Cyfweliad:

I mi y pwyntiau allweddol a ddaeth o'r weminar heddiw ar Archwiliad Mewnol, oedd bod y proffesiwn Archwilio Mewnol yn wirioneddol ymroddedig i helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gwelsom hynny o lefel yr ymgysylltiad fel rhan o'r weminar. Hefyd, mae enghreifftiau da iawn o arfer da allan yna'n barod, cawsom un enghraifft o gwmpas barn cyfyngedig yn cael ei gyhoeddi, sy'n eithaf pwysig ar adeg o gyfyngiad ar adnoddau fel hyn. Mae Archwiliad Mewnol dan bwysau sylweddol, mae dan bwysau i ddarparu, i ddarparu mwy gyda llai o adnoddau, ac fel rhan o hynny mae'n mynd i fod yn allweddol wrth bennu beth sy'n graidd. Beth yw swyddogaeth graidd Archwiliad Mewnol a beth yw'r gweithgareddau craidd sy'n rhaid iddo'i wneud er mwyn galluogi pennaeth Archwiliad Mewnol i roi barn ddiogel? A dwi'n meddwl o'm safbwynt i hefyd, beth hoffwn i gynadledwyr ddysgu o'r weminar oedd mai dechrau ymgysylltu gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Archwiliad Mewnol ar draws y sector cyhoeddus yw hyn mewn gwirionedd. Rydym yn bwriadu cynnal astudiaeth genedlaethol ar Archwilio Mewnol, byddwn yn cynnal seminarau dysgu a rennir, a gweithgareddau eraill i godi proffil Archwiliad Mewnol a chefnogi Archwiliad Mewnol wrth ddarparu beth bynnag yw'r swyddogaethau craidd hynny.

Yn y weminar:

Yn nhermau pam rydym yn cynnal gweminar, yn sicr o'n safbwynt ni, mae'n ddull effeithlon ac effeithiol iawn o ymgysylltu â nifer fawr o bobl, a dyna yw'r nod mewn gwirionedd. Mae'n ymwneud ag ymarferwyr Archwiliad Mewnol, aelodau o Bwyllgorau Archwilio, Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Cyllid, fel y gallwn godi proffil Archwiliad Mewnol, gweld beth mae Archwiliad Mewnol yn ei wneud yn nhermau'r hinsawdd economaidd bresennol - a'r effaith mae'n ei gael, ac efallai edrych ychydig ymhellach i'r dyfodol o gwmpas meysydd y bydd rhaid i Archwiliad Mewnol symud i mewn iddynt yn y blynyddoedd sydd i ddod.

## **Tim Crowley, Merseyside Internal Audit Agency**

Y prif bwyntiau dysgu yr hoffwn i gynadledwyr fynd oddi yma gyda nhw heddiw o'r weminar oedd, yn gyntaf, i ymgysylltu â'ch Pwyllgor Archwilio a'ch timau arwain ynglŷn â beth yw archwiliad digonol. Beth yw swm diogel o archwilio er mwyn rhoi barn pennaeth archwilio? Credaf mewn cael yn drafodaeth fel ei bod yn glir ble mae'r pwynt lle na allwch roi barn unwaith yr eir heibio iddo. Gan symud ymlaen o hynny, drwy adeiladu set o wasanaethau cynghori a gwasanaethau gwerth ychwanegol y byddwch yn amlygu eich hun fel gwasanaeth archwilio mewnol modern sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Ac o fewn hynny, mae meysydd TG, rheoli risg a sicrwydd craidd sy'n rhan o'r set sgiliau hynny. Ond hefyd i feddwl yn fwy ochrol ynghylch cydweithredu, gan gydweithio â chydweithwyr ledled y sector cyhoeddus yn eich economi leol a chenedlaethol hefyd.